Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

Dr Gwynne Jones
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

RHYBUDD O GYFARFOD	**NOTICE OF MEETING**
PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO	**PARTNERSHIP AND REGENERATION SCRUTINY COMMITTEE**
DYDD IAU, 20 EBRILL 2017 am 2.00 o'r gloch y.p.	**THURSDAY, 20 APRIL, 2017 at 2.00 p.m.**
SIAMBR Y CYNGOR, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI	**COUNCIL CHAMBER, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI**
Swyddog Pwyllgor	**Mrs. Mairwen Hughes 01248 752516** **Committee Officer**

AELODAU / MEMBERS
Cynghorwyr / Councillors:-

Annibynnol / Independent

Jim Evans **(Cadeirydd/Chair)**, Richard Owain Jones a Dafydd Rhys Thomas

Plaid Cymru / The Party of Wales

T Ll Hughes MBE, Carwyn Jones, Alun W Mummery (Is-Gadeirydd/Vice-Chair) a Dylan Rees

Heb Ymuno / Unaffiliated

R.Ll.Jones

Plaid Lafur Cymru/Wales Labour Party

Sedd Wag/Vacant Seat

Aelodau Ychwanegol/Additional Members (gyda hawl pleidleisio ar faterion addysg/with voting rights in respect of educational matters)

Ms. Anest Gray Frazer (Yr Eglwys yng Nghymru/The Church in Wales) and Mr. Keith Roberts (Yr Eglwys Babyddol Rufeinig/The Roman Catholic Church)

Aelod Cyfetholedig/Co-opted Member (Dim Hawl Pleidleisio/No Voting Rights)
Mr Dafydd Gruffydd (Rheolwr Gyfarwyddwr/Managing Director - Menter Môn)

R H A G L E N

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

3 COFNODION (Tudalennau 1 - 8)

Cyflwyno, i'w cadarnhau, gofnodion y cyfarfod a gafwyd ar 16 Chwefror, 2017.

4 PANEL SGRIWTINI CYLLID (Tudalennau 9 - 14)

Cyflwyno adroddiad gan y Rheolwr Sgriwtini Dros Dro mewn perthynas â'r uchod.

5 PANEL SGRIWTINI PLANT (Tudalennau 15 - 20)

Cyflwyno adroddiad gan y Rheolwr Sgriwtini Dros Dro mewn perthynas â'r uchod.

6 PANEL ADOLYGU CYNNYDD YSGOLION (Tudalennau 21 - 24)

Cyflwyno adroddiad gan y Swyddog Sgriwtini mewn perthynas â'r uchod.

7 ADOLYGU SGRIWTINI PARTNERIAETHAU (Tudalennau 25 - 32)

Cyflwyno adroddiad gan y Swyddog Sgriwtini mewn perthynas â'r uchod.

8 RHAGLEN WAITH 2017/18 (Tudalennau 33 - 36)

Cyflwyno drafft o Raglen Waith 2017/18 gan y Swyddog Sgriwtini.

PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO

Cofnodion y cyfarfod arbennig a gynhaliwyd ar 16 Chwefror, 2017

YN BRESENNOL: Cynghorydd Alun Wyn Mummery (Is-gadeirydd yn y Gadair)

Cynghorwyr T Ll Hughes MBE, Carwyn Jones, R Ll Jones, G O Jones, Dylan Rees a Dafydd Rhys Thomas.

Mr. Keith Roberts – Cynrychiolydd yr Eglwys Gatholig.

Aelodau eraill o'r Cyngor Sir a wahoddwyd i'r cyfarfod

Cynghorwyr Lewis Davies, R.A. Dew, John Griffith, T. Victor Hughes, K.P. Hughes, Llinos M. Huws, R. Meirion Jones.

WRTH LAW: Prif Weithredwr,
Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, Cymuned a Gwella Gwasanaethau),
Pennaeth Dysgu,
Rheolwr Datblygu Economaidd (APD),
Swyddog Sgriwtini (GR),
Swyddog Pwyllgorau (MEH).

YMDDIHEURIADAU: Cynghorwyr Jim Evans, Richard O. Jones (Aelodau o'r Pwyllgor)

Ms. Anest Gray Frazer – Cynrychiolydd yr Eglwys yng Nghymru

Cynghorwyr Aled M. Jones, H. Eifion Jones, Ieuan Williams.

HEFYD YN BRESENNOL: Mr. Elfyn V. Jones, GwE - Uwch Ymgynghorydd Her (mewn perthynas ag eitem 4)

Mr. Vaughan Williams – Estyn (Arsylwr) (mewn perthynas ag eitemau 4 a 5),

Mr. Iwan Thomas – Rheolwr Rhaglen Rhanbarthol – Sgiliau a Chyflogaeth (Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru) (mewn perthynas ag eitem 6).

Dywedodd yr Is-gadeirydd yn y Gadair fod y Cadeirydd, y Cynghorydd Jim Evans, yn absennol o'r cyfarfod am resymau personol.

Penodwyd y Cynghorydd G.O. Jones yn Is-Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod hwn yn unig.

1 YMDDIHEURIADAU

Fel y nodir uchod.

2 DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Dim.

3 COFNODION

Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Ionawr, 2017 eu cadarnhau fel cofnod cywir.

4 ADRODDIAD CYNNYDD SAFONAU YSGOLION

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Pennaeth Dysgu mewn perthynas â'r uchod.

Nododd y Pennaeth Dysgu mai prif ddiben yr adroddiad yw trafod y cynnydd io ran safonau ysgolion yn ystod blwyddyn academaidd 2015/16. Disgwylir y bydd Ynys Môn yn 10fed allan o'r 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru o ran y dangosyddion perfformiad a nodir gan Estyn.

Rhoddodd Mr. Elfyn V. Jones, - Uwch Ymgynghorydd Her gyda GwE, drosolwg o berfformiad yr awdurdod lleol yn y cyfan o'r cyfnodau allweddol yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru.

Asesiad Cyfnod Sylfaen

Mae'r prif ddangosydd ar gyfer y cyfnod allweddol Sylfaen yn siomedig gan fod Ynys Môn wedi disgyn yn is na'r targed ym mhob categori o gymharu â'r lefelau perfformiad Cenedlaethol; mae hyn yn gosod yr awdurdod lleol yn llawer is na'r disgwyl ar gyfer blwyddyn academaidd 2015/16. Fodd bynnag, nododd na chafodd y lefelau targed hyn eu hamlygu fel pryderon yn ystod Archwiliadau Estyn.

Cyfeiriodd y Prif Weithredwr at y data a gyflwynwyd i'r Pwyllgor a nododd fod Ysgolion Môn, yn y cyfnod Sylfaen yn 21ain allan o 22 awdurdod lleol mewn perthynas â'r Iaith Gymraeg. Mynegodd bryder am ddilysrwydd yr asesiad. Dywedodd y dylid gwneud pob ymdrech i sicrhau bod asesiadau diwedd cyfnod sylfaen yn ddilys ac yn ddibynadwy.

Asesiad Cyfnod Allweddol 2

Mae perfformiadau cyfnod allweddol 2 yn is nac yn 2015 ond mae dal 2.7% yn uwch na'r targedau a osodwyd gydag Ynys Môn yn 9fed o'r holl awdurdodau yng Nghymru.

Asesiadau Cyfnod Allweddol 3 a 4

Mae perfformiad cyfnod allweddol 3 yn uwch yn Ynys Môn na'r meincnod yng Nghymru a osodir gan Lywodraeth Cymru.

Mae yna agweddau cadarnhaol o ran perfformiad cyfnod allweddol 4 ar Ynys Môn ond mynegodd yr Uwch Ymgynghorydd Her siom yn gyffredinol gan fod yr ysgolion

uwchradd mewn safle ychydig yn is yn y rhan fwyaf o ddangosyddion allweddol gan fod y cynnydd cenedlaethol wedi bod yn uwch. Does dim un o'r 5 ysgol uwchradd yn Ynys Môn wedi cyflawni'r trothwy o 70% uwchben y prif ddangosyddion a nodwyd gan Lywodraeth Cymru, fodd bynnag fe gyflawnodd 3 ysgol uwchradd hyn mewn Cymraeg, Saesneg a Mathemateg.

Codwyd y materion canlynol gan yr Aelodau:-

- Cyfeiriodd y cwestiynau at y ffaith y cafodd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ym mis Chwefror 2016, sicrwydd y byddai prosesau ar gyfer asesu plant mewn ysgolion a safoni data yn cael eu rhoi mewn lle ac y byddai hyfforddiant yn cael ei ddarparu i athrawon er mwyn codi safonau yn ysgolion yr Ynys. Ymatebodd yr Uwch Ymarferydd Her gan ddweud bod Ymgynghorwyr Her bellach yn gweithio'n wahanol gydag ysgolion er mwyn gwella safonau o fewn y gwahanol gamau allweddol. Mae'r unigolion hyn yn hyfforddi athrawon ar hyn o bryd ac maent wedi eu hawdurdodi i ymweld ag ysgolion yn amlach er mwyn mynd i'r afael â'r problemau sydd wedi'u hadnabod. Cynhaliwyd trafodaethau gyda Phenaethiaid o ran y targedau disgwyliedig sydd wedi'u sefydlu eleni ac mae rhaglen heriol fwy cadarn wedi'i sefydlu er mwyn gwella perfformiad yn y lefelau cyfnod allweddol. Nododd y Pennaeth Dysgu hefyd bod gwelliannau yn digwydd yn raddol a bod ysgolion a Phenaethiaid ac Aelodau Etholedig fel rhan o'u rôl fel llywodraethwyr ysgolion hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod safonau'n gwella yn yr ysgolion.
- Codwyd cwestiynau am faint dosbarthiadau ac a yw athrawon yn cael digon o amser i gynllunio/paratoi ar gyfer gwersi ac a oes diffyg capasiti o fewn timau rheoli ysgolion yr Ynys er mwyn galluogi blaen-gynllunio. Ymatebodd y Pennaeth Dysgu y gall y llwyth gwaith fod yn fwy heriol i'w reoli ar gyfer Penaethiaid sydd ag ond ychydig neu ddim amser di-gyswllt mewn ysgolion llai a lle hefyd y byddant yn dysgu dau neu dri grŵp blwyddyn yn yr un ystafell ddosbarth. Nododd y Pennaeth Dysgu hefyd bod disgwyliad yn amodau a thelerau gwaith athrawon bod pob athro/athrawes yn derbyn 10% o oriau di-gyswllt ar gyfer Cynllunio, Paratoi ac Asesu ac y dylent dderbyn hyn bob wythnos; nid oedd yn ymwybodol nad oedd hyn yn digwydd mewn unrhyw ysgol ar yr Ynys.
- Codwyd cwestiynau o ran a yw arferion gorau'n cael eu rhannu rhwng yr ysgolion sy'n perfformio orau ac ysgolion eraill nad ydynt o anghenraid yn cyflawni yn ôl y disgwyl. Dywedodd y Pennaeth Dysgu bod proses yn ei lle er mwyn i staff mewn ysgolion sy'n tanberfformio allu rhannu arferion gorau yr ysgolion sy'n perfformio'n well a hynny o fewn rhaglen hyfforddiant a hyfforddi o dan arweiniad GwE;
- Codwyd cwestiynau am yr anawsterau a brofwyd gan y rhan fwyaf o awdurdodau lleol wrth geisio penodi Arweinwyr/Penaethiaid o fewn ysgolion a gofynnwyd sut mae'r Awdurdod hwn yn mynd ati i geisio datrys y broblem. Dywedodd y Pennaeth Dysgu bod trafodaethau wedi eu cynnal â chynrychiolwyr GwE er mwyn adnabod yr unigolion hynny sydd wedi dangos potensial a thalent i allu bod yn arweinwyr ysgolion, pan fydd cyfleoedd yn codi. Mae unigolion sydd â photensial mewn ysgolion eisoes wedi eu hadnabod ac ar hyn o bryd, mae'r awdurdod lleol wrthi'n llunio rhaglen, mewn cydweithrediad â GwE, er mwyn mentora'r unigolion hynny a sicrhau bod ganddynt y sgiliau rheoli ac arwain angenrheidiol.

- Dywedodd yr Aelod Portffolio Addysg, bod cyfrifoldeb arnynt fel Llywodraethwyr Ysgolion, i sicrhau bod disgyblion yn cael yr addysg gorau bosibl a bod yn rhaid i lywodraethwyr hefyd fod yn barod i herio perfformiad ysgolion. Cwestiynodd sut mae GwE yn delio â'r broblem o wneud ysgolion yn fwy rhagweithiol o ran mynd i'r afael â thanberfformiad. Nododd y Pennaeth Dysgu bod 3 ysgol a oedd yn tanberfformio y llynedd wedi defnyddio 40% o'r adnodd gwella ysgolion GwE yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf. Rhoddodd yr Uwch Ymarferydd Her enghraifft o'r rhaglen waith a sefydlwyd gan GwE ar gyfer 3 ysgol a gafodd eu hadnabod fel rhai categori coch/melyn o system gategoreiddio newydd Llywodraeth Cymru, rhai yr oedd y Pwyllgor Sgriwtini wedi eu harchwilio ym mis Hydref 2016. Mae GwE yn rhoi i Benaethiaid raglenni hyfforddiant a chyflwyniadau, maent yn craffu ar waith ysgolion ac yn gwahodd ysgolion sy'n perfformio'n dda i rannu arferion da drwy hyb Gwynedd a Môn. Nododd fod croeso i unrhyw Aelod Etholedig gysgodi Ymgynghorydd Her mewn ymweliad ag ysgol a oedd angen cefnogaeth.

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.

GWEITHRED: Fel y nodwyd uchod.

5 ADRODDIAD BLYNYDDOL Y GRŴP ADOLYGU CYNNYDD YSGOLION

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Pennaeth Dysgu mewn perthynas â'r uchod.

Nododd y Pennaeth Dysgu bod Grŵp Adrodd ar Gynnydd Ysgolion wedi'i sefydlu ym mis Tachwedd 2012 a hynny yn dilyn argymhellion mewn adroddiad Estyn ar ansawdd gwasanaethau Addysg ar gyfer plant a phobl ifanc ar Ynys Môn. Nod y Grŵp yw cynorthwyo'r Gwasaneth Addysg i wella perfformiad ysgolion ar yr Ynys drwy gynyddu a datblygu atebolrwydd Lleol ar gyfer perfformiad ysgolion a rhoi gwybodaeth i aelodau lleol am y gyrwyr perfformiad allweddol a'r heriau sy'n wynebu ysgolion ar Ynys Môn. Bu'r Grŵp Adolygu YN adnabod ysgolion yr hoffent eu hadolygu a gwahoddwyd Penaethiaid, Cadeirydd a Llywodraethwyr a'r Ymgynghorydd GwE perthnasol (Gwella Gwasaneth Ysgolion Rhanbarthol) i fynychu er mwyn trafod safonau cyrhaeddiad, materion cynhwysiant, presenoldeb a rheolaeth adnoddau sy'n cynnwys agweddau cyllidol a rheoli.

Roedd prif negeseuon y Grŵp Adolygu Cynnydd Ysgolion ar gyfer 2016 fel â ganlyn:-

- Gweithiodd ysgolion yn dda gyda GwE ac roeddent yn ganmoliaethus am ansawdd y gefnogaeth a ddarparwyd. Roedd gan yr holl ysgolion dystiolaeth o ddefnyddio cynlluniau datblygu/gwella i ddatrys meysydd gwan o berfformiad ac i wella perfformiad;
- Cydweithiodd ysgolion yn dda ag ysgolion eraill ar yr Ynys er mwyn gwella arferion da ond mynegodd un ysgol ei siom am effeithlonrwydd y cynllun lleol;
- O dan system raddio ysgolion yn ôl codau lliw Llywodraeth CymrU, roedd rhai ysgolion wedi eu categoreiddio yn well nag eraill, ond mae pob ysgol wedi ymrwymo i wella safonau addysg ar gyfer pob disgybl.
- Roedd cynrychiolwyr ysgol a fynychodd y Grŵp Adolygu yn agored wrth adnabod gwendidau ym mherfformiad yr ysgolion ac roeddent yn gallu darparu

esboniad dilys dros hyn e.e. cynnydd yn y niferoedd sydd ag anghenion arbennig, disgyblion sydd â sgiliau Cymraeg llai datblygedig neu swyddi gwag sydd angen eu llenwi.
- Cyfeiriodd ysgolion at anawsterau recriwtio wrth geisio dod o hyd i athrawon profiadol a Phenaethiaid er mwyn ceisio llenwi swyddi gwag. Roedd gan rai ysgolion amheuon am y posibilrwydd o gyflwyno asiantaeth recriwtio genedlaethol i lenwi swyddi dros dro ond ystyriodd eraill nad oedd bai ar y broses recriwtio ond ei fod yn fwy o adlewyrchiad o'r broblem genedlaethol o ran y nifer cyfyngedig o athrawon profiadol sy'n barod i lenwi swyddi gwag a swyddi penaethiaid, yn enwedig drwy gyfrwng y Gymraeg;
- Mae gan ysgolion enw da yn eu cymunedau;
- Mae'r gefnogaeth yn parhau ar gyfer addysg grefyddol a'i bwysigrwydd wrth ddatblygu gwerthoedd cymdeithasol ac ymddygiad cadarnhaol.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad ac i barhau â gwaith y Grŵp Adolygu Cynnydd Ysgolion.

GWEITHRED: Fel yr uchod

6 CYNLLUN SGILIAU RHANBARTHOL – BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygiad Economaidd mewn perthynas â'r uchod.

Nododd y Rheolwr Datblygiad Economaidd y sefydlwyd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (NWEAB) er mwyn cydlynu'n well y datblygiad economaidd strategol ar sail ranbarthol mewn ymateb i'r pwysau ar arian cyhoeddus. Mae cydlyniant a darpariaeth rhanbarthol o ran cyflogaeth a sgiliau yn un o'r meysydd allweddol ar gyfer yr NWEAB. Mae Llif Gwaith Sgiliau a Chyflogaeth yr NWEAB wedi eu mabwysiadu a'u cydnabod gan Lywodraeth Cymru fel un o'i dair Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol ledled Cymru.

Croesawodd y Cadeirydd Mr Iwan Thomas, Rheolwr Rhaglen Rhanbarthol – Sgiliau a Chyflogaeth o'r NWEAB i'r cyfarfod. Rhoddodd Mr Iwan Thomas gyflwyniad i'r cyfarfod ar Gynllun Sgiliau a Chyflogaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru. Tynnodd sylw at y ffaith mai nod yr NWEAB yw gwella a diweddaru cronfa sgiliau'r ardal a datblygu cyflogaeth yng Ngogledd Cymru. Gyda'r cyfleoedd cyflogaeth fydd ar gael ar yr Ynys dros y deng mlynedd nesaf, bydd angen i gyflogwyr gael cymorth pellach er mwyn gyrru darpariaeth sgiliau sy'n ymateb i'w hanghenion. Bydd y rhai hynny sy'n chwilio am waith angen y sgiliau er mwyn cael mynediad i gyflogaeth gynaliadwy, tra bydd y rhai hynny sydd mewn gwaith angen cymorth pellach er mwyn gallu datblygu eu potensial i allu cystadlu am gyfleoedd cyflogaeth mewn gwahanol brosiectau mawr a fydd yn cael eu sefydlu ar yr Ynys h.y. y sector ynni ac amgylchedd, uwch weithgynhyrchu, adeiladwaith, sectorau creadigol a digidol, gofal iechyd a chymdeithasol, twristiaeth a lletygarwch a gweithgynhyrchu bwyd a diod.

Nododd Mr. Thomas yr heriau rhanbarthol canlynol a oedd yn bodoli o ran sgiliau a chyflogaeth:-

- Cyflogwyr i fynd i'r afael â chynllunio olyniaeth yn ogystal â gweithlu sy'n heneiddio mewn sectorau allweddol;
- Cadw pobl ifanc mewn cyflogaeth gynaliadwy o fewn y rhanbarth wedi iddynt gwblhau eu hastudiaethau;
- Datblygu model broceriaeth sgiliau rhanbarthol yn seiliedig ar yr hyn a ddarparwyd wrth adeiladu Carchar Gogledd Cymru.
- Cynyddu'r niferoedd sy'n astudio pynciau STEM a hyrwyddo'r pynciau hynny a sicrhau bod gan bobl sgiliau sy'n cyd-fynd â gofynion cyflogwyr;
- Darparu datrysiadau sgiliau rhanbarthol ar gyfer prosiectau trawsnewid ochr yn ochr â hyrwyddo agosrwydd lleol;
- Cefnogi datblygiad cynaliadwy ac arloesedd yn ein sectorau twf er mwyn darparu llwybrau gyrfa deniadol.

Cododd yr Aelodau y materion canlynol:-

- Mae angen annog pobl ifanc sydd wedi gadael Ynys Môn i fynd i Brifysgolion a Cholegau i ddychwelyd ar gyfer cyfleoedd cyflogaeth posibl a fydd ar gael yng Ngogledd Cymru ac Ynys Môn;
- Mae angen cynnwys Cymunedau'n Gyntaf Môn yn y rhestr o bartneriaid allweddol ar Fwrdd Uchelgais Gogledd Cymru;
- Mae angen i Ffeiriau Gyrfa mewn ysgolion uwchradd roi cyngor i ddisgyblion am y pynciau sydd angen iddynt eu hastudio er mwyn gallu cystadlu am y cyfleoedd cyflogaeth fydd ar gael yng Ngogledd Cymru;
- Tra bod angen i bobl ifanc fod yn ymwybodol bod pynciau STEM yn bwysig a gyfer datblygwyr mawr yng Ngogledd Cymru, mae angen tynnu sylw at bynciau busnes hefyd h.y. Adnoddau Dynol, Gweinyddiaeth, Cyfreithiol, Sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Twristiaeth a Lletygarwch;
- Mae angen gwarchod cwmnïau lleol pan fydd prosiectau mawr posibl yn dod i'r amlwg yng Ngogledd Cymru. Mae'n anorfod y bydd cwmnïau yn colli gweithwyr medrus i gyflogwyr mawr.

PENDERFYNWYD:-

- **Cefnogi'r argymhellion sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau Rhanbarthol ac i gefnogi'r cyflenwad o sgiliau sydd eu hangen ar gyfer twf economaidd yn Ynys Môn a Gogledd Cymru yn y dyfodol;**
- **Y dylid cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Sgriwtini ymhen deuddeg mis yn eu diweddaru ar berfformiad y Cynllun Sgiliau Rhanbarthol o ran y buddion a'r effeithiau ar drigolion Ynys Môn;**
- **Bod angen i bobl ifanc fod yn ymwybodol o bynciau busnes o gymharu â phynciau STEM mewn perthynas â chyfleoedd cyflogaeth sydd ar gael.**

GWEITHRED : Fel y nodwyd uchod.

7 CYFARFOD NESAF

Nodi y cynhelir cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor hwn ar 15 Mawrth, 2017 am 2:00pm.

Daeth y cyfarfod i ben am 4.05 pm

CYNGHORYDD ALUN MUMMERY
IS-GADEIRYDD YN Y GADAIR

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
PWYLLGOR:	**Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio**
DYDDIAD:	**20 Ebrill, 2017**
PWNC :	**Panel Sgriwtini Cyllid**
AELODAU PORTFFOLIO(AU):	**Cyng Hywel Eifion Jones**
PENNAETH GWASANAETH:	**Marc Jones, Pennaeth Adnoddau/Swyddog A151**
AWDUR YR ADRODDIAD **Rhif Ffôn:** **E-bost:**	**Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini Dros Dro** **01248 752578** **AnwenDavies@ynysmon.gov.uk**

1. ARGYMHELLION

Gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini :

A1 **Nodi'r cynnydd wnaed hyd yma wrth sefydlu trefniadau craffu cadarn ar gyfer materion cyllidol**

A2 **Ffurfio barn ar sgôp ac ystod gwaith arfaethedig y panel cyllid newydd**

A3 **Nodi mai'r cam nesaf fydd cwblhau'r trefniadau ymarferol i sefydlu'r panel cyllid ar ôl yr Etholiad gan y Rheolwr Sgriwtini mewn ymgynghoriad gyda'r Pennaeth Adnoddau / Swyddog A151**

2. CEFNDIR A CHYD-DESTUN LLEOL

2.1 Mae cyllid yn holl bwysig i'r gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor a gwelir oblygiadau pellgyrhaeddol i'r materion ariannol sy'n ein hwynebu fel awdurdod lleol – o ran y gwasanaethau mae'r cyhoedd yn eu derbyn a'r Dreth Gyngor neu'r taliadau a'r ffioedd y maent yn eu talu[1]. Wedi iddi fynd yn anoddach canfod yr arbedion sydd eu hangen drwy wneud arbedion effeithlonrwydd, bydd rhaid i'r Cyngor roi ystyriaeth fanwl i'r dewisiadau sydd ganddom. Bydd hyn hefyd yn golygu parhau i ofyn cwestiynau heriol ynglŷn â pha wasanaethau i'w cynnig yn y dyfodol ac i ba raddau mae dulliau presennol o gyflenwi gwasanaethau yn parhau i fod yn addas. Ystyriaeth arall yw beth fyddai'r ffordd orau o reoli disgwyliadau (yn fewnol ac yn allanol) wrth wneud y newidiadau sy'n angenrheidiol.

[1] Disgwyliadau Uwch – craffu ariannol mewn cyfnod heriol. Arweiniad ar gyfer awdurdodau lleol Cymru (Canolfan Craffu Cyhoeddus, Mehefin, 2014)

3. **SGRIWTINI ARIANNOL**

3.1 Yn yr hinsawdd economaidd bresennol, mae Aelodau angen sicrwydd bod y Cyngor yn gwneud y defnydd gorau o adnoddau, sy'n prinhau, yn arbennig adnoddau ariannol:

"… Mae craffu effeithiol yn bwysicach fyth wrth i wasanaethau cyhoeddus ymateb i her y sefyllfa ariannol fyd-eang tra'n parhau i geisio gwella gwasanaethau. Gall craffu effeithiol wella sail y dystiolaeth ar gyfer penderfyniadau ar ddyrannu adnoddau yn ogystal â sicrhau bod penderfyniadau yn dryloyw ac yn cael eu gwneud yn unol ag anghenion y gymuned leol..."[2]

"Sut fedrwn ni ychwanegu gwerth?" yw'r cwestiwn allweddol y dylid ei ofyn o safbwynt sgriwtini ariannol a "sut fedrwn ni ddangos bod gwerth wedi ei ychwanegu ym mhob cam o'r broses ariannol?" Yn y cyd-destun hwn, mae angen rhoi ystyriaeth i'r materion a ganlyn:

- Y broses o osod y gyllideb ynddi'i hun
- Penderfynu ar flaenoriaethau ymysg y gofynion sy'n cystadlu
- Defnydd effeithiol o gyllid
- Sut mae monitro a rheolaeth ariannol yn digwydd.

3.2 Mae sgriwtini ariannol yn golygu llawer mwy nag ychwanegu gwerth i benderfyniadau'r Pwyllgor Gwaith yn unig. Mae'n ymwneud â sicrhau bod proses sgriwtini briodol yn cael ei gweithredu wrth gynllunio, gweithredu a dilyn i fyny ar benderfyniadau allweddol sy'n cael effaith ar drethdalwyr a chymunedau lleol.

4. **EIN TREFNIADAU LLEOL**

4.1 Mae'r trefniadau craffu ar y broses flynyddol o sefydlu cyllideb y Cyngor wedi datblygu ac aeddfedu dros y 2 flynedd diwethaf gan osod y sylfeini ar gyfer dull gwell, mwy strategol a seiliedig ar ganlyniadau ac arfer da.

4.2 Mae'n gam naturiol felly sefydlu is-grŵp plant fel is-banel i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol. Bydd gwneud hyn yn sicrhau'r buddion a ganlyn:

- Datblygu model o weithio yn y maes cyllidol sy'n ffocysu ar grŵp llai er mwyn galluogi Aelodau i gymryd mwy o ran, datblygu lefel o arbenigedd pwnc, annog presenoldeb da a gweithio mewn tîm
- Fforwm i drafod gwybodaeth am risgiau ariannol y Cyngor, fel sail i lywio blaen raglen waith y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol
- Rhyddhau gofod ar raglenni cyfarfodydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol i graffu eitemau trawsnewid a strategol

[2] Craffu Da? Cwestiwn Da! Astudiaeth wella Archwilydd Cyffredinol Cymru: Craffu mewn Llywodraeth Leol, Mai 2014

- Fforwm i ddatblygu grŵp o aelodau gyda'r arbenigedd a'r berchnogaeth i arwain trafodaethau cyllidol yn y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol.

4.3 Mae'r papur sgopio ynghlwm (**ATODIAD A**) yn manylu ar sgôp ac ystod gwaith arfaethedig y Panel.

5. **FFORDD YMLAEN**
Y cam nesaf fydd cwblhau'r trefniadau ymarferol i sefydlu'r panel cyllid ar ôl yr Etholiad, gan y Rheolwr Sgriwtini mewn ymgynghoriad gyda'r Pennaeth Adnoddau/Swyddog A151.

ATODIAD
ATODIAD A: Papur Sgopio Panel Sgriwtini Cyllid

Awdur: Anwen Davies
Teitl Swydd: Rheolwr Sgriwtini Dros Dro
Dyddiad: 30/03/17

ATODIAD A

PANEL SGRIWTINI - CYLLID

Sgriwtini Ariannol

Yn yr hinsawdd economaidd bresennol, mae Aelodau angen sicrwydd bod y Cyngor yn gwneud y defnydd gorau o adnoddau, sy'n prinhau, yn arbennig adnoddau ariannol:

"… Mae craffu effeithiol yn bwysicach fyth wrth i wasanaethau cyhoeddus ymateb i her y sefyllfa ariannol fyd-eang tra'n parhau i geisio gwella gwasanaethau. Gall craffu effeithiol wella sail y dystiolaeth ar gyfer penderfyniadau ar ddyrannu adnoddau yn ogystal â sicrhau bod penderfyniadau yn dryloyw ac yn cael eu gwneud yn unol ag anghenion y gymuned leol..."[1]

"Sut fedrwn ni ychwanegu gwerth?" yw'r cwestiwn allweddol y dylid ei ofyn o safbwynt sgriwtini ariannol a "sut fedrwn ni ddangos bod gwerth wedi ei ychwanegu ym mhob cam o'r broses ariannol?" Yn y cyd-destun hwn, mae angen rhoi ystyriaeth i'r materion a ganlyn:

- Y broses o osod y gyllideb ynddi'i hun
- Penderfynu ar flaenoriaethau ymysg y gofynion sy'n cystadlu
- Defnydd effeithiol o gyllid
- Sut mae monitro a rheolaeth ariannol yn digwydd.

Mae sgriwtini ariannol yn golygu llawer mwy nag ychwanegu gwerth at benderfyniadau'r Pwyllgor Gwaith yn unig. Mae'n ymwneud â sicrhau bod proses sgriwtini briodol yn cael ei gweithredu wrth gynllunio, gweithredu a dilyn i fyny ar benderfyniadau allweddol sy'n cael effaith ar drethdalwyr a chymunedau lleol. O'r herwydd, mae Sgriwtini effeithiol yn gallu:

- Cynnig her effeithiol
- Dal y sawl sy'n gwneud penderfyniadau i gyfrif; a
- Cynorthwyo'r Pwyllgor Gwaith i ddatblygu cyllideb gadarn ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

Ein Trefniadau Lleol

Mae'r trefniadau craffu ar y broses flynyddol o sefydlu cyllideb y Cyngor wedi datblygu ac aeddfedu dros y 2 flynedd diwethaf gan osod y sylfeini ar gyfer dull gwell, mwy strategol a seiliedig ar ganlyniadau ac arfer da. Yn wir, gwelwyd y broses yn caniatau dilyn trywydd mwy systematig o ran sgriwtini ariannol, sy'n elfen hanfodol o reolaeth a llywodraethiant ariannol cadarn.

'Roedd y gwaith craffu gan banel sgriwtini ar wireddu arbedion effeithlonrwydd 2014/15 a 2015/16 hefyd yn ddatblygiad cadarnhaol yn ein trefniadau craffu ariannol, drwy:

- Ddatblygu model yn ffocysu ar grwp llai
- Aelodau'n datblygu lefel o arbenigedd
- Annog presenoldeb da a gweithio mewn tîm

Mae ein gwaith craffu ariannol bellach yn dechrau amlygu fel model posibl o arfer da.

Mae'n **gam naturiol** felly sefydlu is-grŵp cyllid fel is-banel i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol. Bydd gwneud hyn yn sicrhau'r buddion a ganlyn:

i. Datblygu model o weithio yn y maes cyllidol sy'n ffocysu ar grŵp llai er mwyn galluogi Aelodau i gymryd mwy o ran, datblygu lefel o arbenigedd pwnc, annog presenoldeb da a gweithio mewn tîm

[1] Craffu Da? Cwestiwn Da! Astudiaeth wella Archwilydd Cyffredinol Cymru: Craffu mewn Llywodraeth Leol, Mai 2014. Hefyd, Disgwyliadau Uwch – craffu ariannol mewn cyfnod heriol. Arweiniad ar gyfer awdurdodau lleol Cymru (Canolfan Graffu Cyhoeddus, Mehefin, 2014)

ii. Fforwm i drafod gwybodaeth am risgiau ariannol y Cyngor, fel sail i lywio blaen raglen waith y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol
iii. Rhyddhau gofod ar raglenni cyfarfodydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol i graffu eitemau trawsnewid a strategol
iv. Fforwm i ddatblygu grŵp o aelodau gyda'r arbenigedd a'r berchnogaeth i arwain trafodaethau cyllidol yn y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol.

Sgôp ac ystod gwaith arfaethedig y Panel

Pwnc	Rhaglen Waith	Amserlen
Amwytho	Amwytho aelodau'r Panel	Mehefin
Monitro Chwarterol y Gwariant Refeniw a Chyfalaf	Craffu gwariant yn erbyn proffîl cyllidebau	Chwarterol
Cyllideb y flwyddyn i ddod	Rhannu gwybodaeth am risgiau ariannol y Cyngor i lywio blaen raglen waith y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol	Mehefin
	Cyllideb ddrafft – proses y setliad ariannol a sut mae'n gweithio	Haf
	Trosolwg o sefyllfa'r arbedion	Yr Hydref
	Craffu risgiau'r arbedion effeithlonrwydd arfaethedig	
	Craffu pa mor gyraeddadwy ydy'r cynigion	
	Craffu lefel y Dreth Gyngor am y flwyddyn ddilynol	
Cynllun Cyllidol Tymor Canol	Craffu'r egwyddorion a rhagdybiaethau	Haf
Rheoli Dyledion	Craffu perfformiad rheolaeth dyledion (cynnwys graddfeydd casglu)	I'w gadarnhau (dibynnol ar argaeledd gwybodaeth wedi'i pharatoi'n rhanbarthol)
Polisi Rhyddhad Treth Busnes	Craffu'r egwyddorion a rhagdybiaethau	I'w gadarnhau (darn o waith mewn un cyfarfod yn unig)
Cynllun Busnes HRA	Craffu'r egwyddorion a rhagdybiaethau	Ionawr
Balansau'r Cyngor ac arian wrth gefn	Cwestiynu a chraffu	Amserlen i'w chadarnhau gan y Panel

Aelodaeth y Panel
Bydd aelodaeth graidd y Panel yn cynnwys:

- **Aelodau Etholedig** – 2 aelod o'r ddau bwyllgor sgriwtini
- **Swyddogion** – Pennaeth Adnoddau a'r Swyddog A151, Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifeg, Rheolwr Gwasaneth Refeniw a Budd-daliadau, Rheolwr Sgriwtini

Mae'n bosib bydd gwaith y Panel yn golygu y bydd angen i Aelodau Etholedig eraill (ee o'r Pwyllgor Gwaith) a / neu swyddogion o feysydd gwasanaeth eraill fynychu'r Panel.

Cadeirio
Bydd y Panel yn ethol Aelod i gadeirio yn y cyfarfod cyntaf.

Amlder Cyfarfodydd a Chworwm

1. **Amlder cyfarfodydd** – sefydlwyd fel panel sefydlog i ystyried yr amrediad o faterion cyllidol sydd wedi'u crynhoi yn y tabl uchod. Bydd y panel felly'n cyfarfod yn rheolaidd, yn unol ag amserlenni prosesau cyllidol y Cyngor (rhagwelir oddeutu 6-8 cyfarfod/ blwyddyn)

2. **Cworwm –** ni fydd yn berthnasol i'r panel.

Cofnodi cyfarfodydd a Threfniadau Adrodd

1. Bwriedir rhedeg y panel ar ffurf cyfarfod busnes. Bydd yr Uned Sgriwtini'n coladu a dosbarthu unrhyw bapurau wrth baratoi ar gyfer pob cyfarfod a darparu rhestr o bwyntiau gweithredu yn dilyn pob cyfarfod

2. **Trefn adrodd** - cyflwyno adroddiad rheolaidd gan aelodau'r panel i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol.

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
PWYLLGOR:	**Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio**
DYDDIAD:	**20 Ebrill, 2017**
PWNC :	**Panel Sgriwtini Plant**
AELODAU PORTFFOLIO(AU):	**Cyng Aled Morris Jones**
PENNAETH GWASANAETH:	**Caroline Turner, Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethu a Thrawsnewid Prosesau Busnes) Llŷr Bryn Roberts, Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Plant (Gweithredoedd)**
AWDUR YR ADRODDIAD **Rhif Ffôn:** **E-bost:**	**Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini Dros Dro** **01248 752578** **AnwenDavies@ynysmon.gov.uk**

1. **ARGYMHELLION**
   Gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini :
   - **A1** **Nodi'r cynnydd wnaed hyd yma wrth sefydlu trefniadau craffu cadarn ar gyfer y gwasanaethau plant**
   - **A2** **Ffurfio barn ar sgôp ac ystod gwaith arfaethedig y panel plant newydd**
   - **A3** **Nodi mai'r cam nesaf fydd cwblhau'r trefniadau ymarferol i sefydlu'r panel plant ar ôl yr Etholiad gan y Rheolwr Sgriwtini mewn ymgynghoriad gyda'r Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethu a Thrawsnewid Prosesau Busnes).**

2. **CEFNDIR A CHYD-DESTUN LLEOL**
   2.1 Bu i'r Gwasanaethau Cymdeithasol sefydlu panel aelodau trawsbleidiol[1] blwyddyn yn ôl gyda'r amcan o rannu gwybodaeth am ofynion y ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant newydd[2] a hefyd i oruchwylio'r gwaith o gyflawni'r cynllun gwella plant cyntaf. Mae ganddom bellach dîm

[1] Arweinydd y Cyngor ac Arweinydd y Gwrthblaid, Deilydd Portffolio Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol, Deilydd Portffolio Cysgodol Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol, Deilydd Porffolio Dysgu, Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol

[2] Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

bychain o Aelodau Etholedig sy'n datblygu lefel o arbenigedd yn y maes a hefyd perchnogaeth o'r prif faterion allweddol a'r blaenoriaethau datblygu.

2.2 Yn ddiweddar bu i'r panel ffocysu ei waith ar faterion yn ymwneud â'r gwasanaethau plant yn rhannol yn sgîl arolwg thematig gan yr Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC)[3] o wasanaethau plant yr Awdurdod, yn ystod Tachwedd, 2016.

3. SGRIWTINI O'R GWASANAETHAU PLANT

3.1 Mae cadw plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed yn ddiogel yn rôl hanfodol bwysig ac yn un sy'n gofyn i'r Cyngor a phartneriaid weithio'n effeithiol efo'i gilydd. Cafwyd sylw cyhoeddus sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf oherwydd enghreifftiau proffil uchel lle mae'r system wedi methu unigolion bregus, gyda chanlyniadau trychinebus.

3.2 Wrth adrodd ar ganlyniadau arolwg gwael, mae'r Arolygaethau[4] yn y maes gofal yn aml yn dyfynnu arfer craffu gwael ochr yn ochr efo methiannau yn agweddau eraill y system drwyddi draw. Mae sicrhau craffu ystyrlon a chadarn o'r polisïau a'r gefnogaeth a'r gwasanaethau sydd ar gael i warchod plant a phobl ifanc bregus felly'n elfen allweddol o rôl arweinyddol yr aelodau Sgriwtini.

4. AROLWG YR AGGCC

4.1 Gwnaed 14 o argymhellion gan yr Arolygaeth Gofal yn sgîl ei harolwg diweddar ac 'roedd un o'r argymhellion rheiny'n ymwneud yn benodol â chefnogaeth wleidyddol i'r gwasanaethau plant, sef:

"…. 8. Mae'n rhaid i gefnogaeth wleidyddol a chorfforaethol gref ar gyfer y gwasanaethau plant barhau i sicrhau bod y gwelliannau sydd eu hangen ar wasanaethau yn cael eu blaenoriaethu a bod cyflymder y gwelliannau yn cyflymu ac yn cael ei gynnal."

5. EIN TREFNIADAU LLEOL

5.1 Y **c**am nesaf yn ein gwaith felly fydd datblygu ymhellach ar y gwaith yma drwy drosi'r panel trawsbleidiol cyfredol i fod yn banel sgriwtini plant sefydlog ac yn is-banel i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, gyda'r elfennau canlynol:

- Datblygu model o weithio yn y maes plant sy'n ffocysu ar grŵp llai er mwyn galluogi Aelodau i gymryd mwy o ran, datblygu lefel o arbenigedd pwnc, annog presenoldeb da a gweithio mewn tîm

[3] Adroddiad Arolygu Gwasanaethau Plant Cyngor Sir Ynys Môn, Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol (Mawrth, 2017)

[4] Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru; Care Quality Commission (Lloegr)

- Cryfhau gallu'r Aelodau i herio perfformiad drwy wella gwybodaeth am ansawdd y gwasanaethau a phrofiadau plant a theuluoedd yn derbyn cefnogaeth a / neu wasanaethau
- Fforwm i drafod gwybodaeth am risgiau y Gwasanaeth, fel sail i lywio blaen raglen waith y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol
- Fforwm i ddatblygu grŵp o aelodau gyda'r arbenigedd a'r berchnogaeth i arwain trafodaethau yn ymwneud â materion plant a phobl ifanc yn y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol
- Cynnig cefnogaeth i'r Pencampwr Pobl Ifanc.

5.2 Disgwyliadau'r Arolygaeth Gofal

Mae adroddiad yr arolwg diweddar gan yr Arolygaeth Gofal yn datgan yn glir y disgwyliadau o ran arweinyddiaeth wleidyddol:

"Mae gan Aelodau Etholedig wybodaeth a dealltwriaeth gynhwysfawr o arfer a pherfformiad i'w galluogi i gyflawni eu cyfrifoldebau'n effeithiol."

5.3 Mae'r papur sgopio ynghlwm (**ATODIAD A**) yn manylu ar sgôp ac ystod gwaith arfaethedig y Panel.

6. **FFORDD YMLAEN**

Y cam nesaf fydd cwblhau'r trefniadau ymarferol i sefydlu'r panel plant ar ôl yr Etholiad, gan y Rheolwr Sgriwtini mewn ymgynghoriad gyda'r Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethu a Thrawsnewid Prosesau Busnes).

ATODIAD
ATODIAD A: Papur Sgopio Panel Sgriwtini Plant

Awdur: Anwen Davies
Teitl Swydd: Rheolwr Sgriwtini Dros Dro
Dyddiad: 30/03/17

ATODIAD A

PANEL SGRIWTINI – PLANT

Sgriwtini o'r Gwasanaethau Plant

Mae cadw plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed yn ddiogel yn rôl hanfodol bwysig ac yn un sy'n gofyn i'r Cyngor a phartneriaid weithio'n effeithiol efo'i gilydd. Cafwyd sylw cyhoeddus sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf oherwydd enghreifftiau proffil uchel lle mae'r system wedi methu unigolion bregus, gyda chanlyniadau trychinebus.

Wrth adrodd ar ganlyniadau arolwg gwael, mae'r Arolygaethau[1] yn y maes gofal yn aml yn dyfynnu arfer craffu gwael ochr yn ochr efo methiannau yn agweddau eraill y system drwyddi draw. Mae sicrhau craffu ystyrlon a chadarn o'r polisïau a'r gefnogaeth a'r gwasanaethau sydd ar gael i warchod plant a phobl ifanc bregus felly'n elfen allweddol o rôl arweinyddol yr aelodau Sgriwtini.

Ein Trefniadau Lleol

Mae'r trefniadau hyd yma o gwmpas y panel trawsbleidiol wedi'n galluogi i feithrin nifer o egwyddorion pwysig fydd yn sylfaen gref wrth symud ymlaen i ddatblygu model craffu ar gyfer y gwasanaethau plant:

- Datblygu model yn ffocysu ar grŵp llai o aelodau
- Aelodau'n datblygu gwell ddealltwriaeth o'r maes plant
- Aelodau'n datblygu lefel o arbenigedd
- Annog presenoldeb da a gweithio mewn tîm

Gwnaed 14 o argymhellion gan yr Arolygaeth Gofal yn sgîl ei harolwg diweddar ac 'roedd un o'r argymhellion rheiny'n ymwneud yn benodol â chefnogaeth wleidyddol i'r gwasanaethau plant, sef:

"…. 8. Mae'n rhaid i gefnogaeth wleidyddol a chorfforaethol gref ar gyfer y gwasanaethau plant barhau i sicrhau bod y gwelliannau sydd eu hangen ar wasanaethau yn cael eu blaenoriaethu a bod cyflymder y gwelliannau yn cyflymu ac yn cael ei gynnal."

Mae'n **gam naturiol** felly sefydlu is-grŵp plant fel is-banel i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol. Bydd gwneud hyn yn sicrhau'r buddion a ganlyn:

i. Datblygu model o weithio yn y maes plant sy'n ffocysu ar grŵp llai er mwyn galluogi Aelodau i gymryd mwy o ran, datblygu lefel o arbenigedd pwnc, annog presenoldeb da a gweithio mewn tîm
ii. Cryfhau gallu'r Aelodau i herio perfformiad drwy wella gwybodaeth am ansawdd y gwasanaethau a phrofiadau plant a theuluoedd yn derbyn cefnogaeth a / neu wasanaethau
iii. Fforwm i drafod gwybodaeth am risgiau y Gwasanaeth, fel sail i lywio blaen raglen waith y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol

[1] Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru; Care Quality Commission (Lloegr)

iv. Fforwm i ddatblygu grŵp o aelodau gyda'r arbenigedd a'r berchnogaeth i arwain trafodaethau yn ymwneud â materion plant a phobl ifanc yn y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol
v. Cynnig cefnogaeth i'r Pencampwr Pobl Ifanc

Sgôp ac ystod gwaith arfaethedig y Panel

Yr hyn mae'r Arolygaeth Gofal yn disgwyl ei weld o ran arweinyddiaeth wleidyddol:

"Mae gan Aelodau Etholedig wybodaeth a dealltwriaeth gynhwysfawr o arfer a pherfformiad i'w galluogi i gyflawni eu cyfrifoldebau'n effeithiol."

Prif rôl y panel plant fydd:

1. Monitro a chraffu mewn ffordd ystyrlon a chadarn ar:

   - gynnydd a'r pellter a deithiwyd yn erbyn y cynllun gwella gwasanaeth a gyhoeddwyd mewn ymateb i arolwg diweddar yr AGGCC
   - berfformiad meintiol ac ansoddol y gwasanaethau plant. Hyn i gynnwys datblygu sgorfwrdd penodol i'r maes plant

   Sylw arbennig i fonitro agweddau ansoddol y gwasanaeth a phrofiadau unigolion sy'n derbyn cefnogaeth a gwasanaethau.

2. Sicrhau bod llais plant a phobl ifanc yn cael ei glywed wrth ystyried effeithiolrwydd ac effaith gwasanaethau

3. Cynnig sicrwydd i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar yr elfennau canlynol:

   - cynnydd digonol, amserol wrth wireddu'r cynllun gwella
   - perfformiad meintiol ac ansoddol y gefnogaeth a'r gwasanaethau gofal ar gael i blant a phobl ifanc.

Aelodaeth y Panel
Bydd aelodaeth graidd y Panel yn cynnwys:

- Aelodau Etholedig – bydd cynnal elfen o barhad yn yr aelodaeth yn bwysig. Fel man cychwyn, cynigir 2 aelod o'r ddau bwyllgor sgriwtini a'r Deilydd Portffolio Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Deilydd Cysgodol gydag Arweinydd y Cyngor ac Arweinydd yr Wrthblaid
- Swyddogion – Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethu a Thrawsnewid Prosesau Busnes) a Chyfarwyddwr statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol, Pennaeth Gwasanaethau Plant, Rheolwr Sgriwtini.

Mae'n bosib bydd gwaith y Panel yn golygu y bydd angen i Aelodau Etholedig eraill (ee o'r Pwyllgor Gwaith) a / neu swyddogion o feysydd gwasanaeth eraill fynychu'r Panel.

Cadeirio
Bydd y Panel yn ethol Aelod i gadeirio yn y cyfarfod cyntaf.

Amlder Cyfarfodydd a Chworwm

1. **Amlder cyfarfodydd** – sefydlu fel panel sefydlog ac felly'n cyfarfod yn rheolaidd, yn unol ag amserlenni cyflwyno adroddiadau monitro gwelliannau yn y Gwasanaethau Plant i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol

2. **Cworwm** – ni fydd yn berthnasol i'r panel.

Cofnodi cyfarfodydd a Threfniadau Adrodd

1. Bwriedir rhedeg y panel ar ffurf cyfarfod busnes. Bydd yr Uned Sgriwtini'n coladu a dosbarthu unrhyw bapurau wrth baratoi ar gyfer pob cyfarfod a darparu rhestr o bwyntiau gweithredu yn dilyn pob cyfarfod

2. **Trefn adrodd** - cyflwyno adroddiad rheolaidd gan aelodau'r panel i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol.

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
PWYLLGOR:	**Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio**
DYDDIAD:	**20 Ebrill, 2017**
PWNC:	**Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion**
AELOD(AU) PORTFFOLIO:	**Y Cynghorydd Ken Hughes, Aelod Portffolio Addysg**
PENNAETH GWASANAETH:	**Delyth Molyneux, Pennaeth Dysgu**
AWDUR YR ADRODDIAD: **Ffôn:** **E-bost:**	**Swyddog Sgriwtini** **01248752039** **gwrce@ynysmon.gov.uk**

1.0 ARGYMHELLIAD

Gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini:

1.1 Nodi a chymeradwyo Cylch Gorchwyl y Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion

2.0 PWRPAS YR ADRODDIAD

2.1 Mae aelodaeth y Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion yn cynnwys yr aelodau canlynol ar hyn o bryd:

- Y Cynghorydd Meirion Jones
- Y Cynghorydd Gwilym Jones
- Y Cynghorydd Alun Mummery
- Y Cynghorydd Lewis-Davies
- Y Cynghorydd Richard Owain Jones
- Y Cynghorydd Dylan Rees
- Y Cynghorydd Jim Evans
- Un sedd wag

2.2 Yn dilyn etholiadau'r Cyngor ym mis Mai 2017 mae'n bosib y bydd angen gwneud trefniadau i ailgyfansoddi aelodaeth y Panel. Er mwyn ailgyfansoddi'r Panel cynghorir bod y Cylch Gorchwyl diweddaraf ar gael fel gwybodaeth gefndir ar gyfer unrhyw aelod newydd o'r Panel. Mae'r cylch gorchwyl arfaethedig i'w weld yn yr **ATODIAD i'r** adroddiad hwn.

2.3 Gofynnir i'r Panel gymeradwyo'r Cylch Gorchwyl.

ATODIAD

CYLCH GORCHWYL Y PANEL ADOLYGU CYNNYDD YSGOLION

Pwrpas y ddogfen hon yw dangos cylch gorchwyl y Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion (y Panel).

1.0 CEFNDIR

1.1 Sefydlwyd y Panel ar 21 Tachwedd 2012 gan y Pwyllgor Sgriwtini Addysg a Hamdden. 'Roedd yn codi o argymhellion a wnaed gan Estyn ar ansawdd gwasanaethau addysg ar gyfer plant a phobl ifanc yn Ynys Môn.

1.2 Mae'r Pennaeth Dysgu a'r Uwch Reolwr Safonau Ysgolion a Chynhwysiad yn rhoi arweiniad i'r Panel am ysgolion y gallai fod yn briodol eu gwahodd i ymddangos ger ei fron. Mae'r maen prawf a ddefnyddir i ddewis ysgolion yn seiliedig ar y fframwaith cenedlaethol ar gyfer categoreiddio ysgolion, perfformiad yr ysgol ac adroddiadau Estyn. Y nod yw cael cymysgedd da o ysgolion bach, canolig, mawr cynradd / uwchradd. Pwysleisir mai mater i'r Panel yn unig fydd dewis pa ysgol a fydd yn ymddangos o'i flaen.

1.3 Gall y Panel wahodd ysgolion i ailymddangos o'i flaen os oes materion y bydd angen eu hailystyried yn ddiweddarach.

2.0 RÔL Y PANEL

2.1 Gwella gwella perfformiad yr holl ysgolion ar Ynys Môn drwy herio perfformiad ysgolion unigol yn gadarn.

2.2 Annog rhannu ymarfer da rhwng ysgolion, gan fanteisio ar wersi a ddysgwyd ac o brofiad ysgolion unigol.

2.3 Gwella gwybodaeth yr aelodau lleol am yrwyr perfformiad allweddol a'r heriau sy'n wynebu ysgolion ar Ynys Môn.

2.4 Rhoi hyder i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth, Sgriwtini, y Pwyllgor Gwaith a'r Rheoleiddwyr bod perfformiad ysgolion yn cael ei fonitro gan yr aelodau.

2.5 Cynorthwyo'r Gwasanaeth Dysgu gyda rhaglenni a phrosiectau addysgol cyffredinol a chynyddu gwybodaeth am drefniadau gweithio ar y cyd rhwng y Cyngor a GwE (Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion ar gyfer Gogledd Cymru) er mwyn codi safonau.

3.0 Y BROSES A'R TREFNIADAU AR GYFER ADRODD

3.1 Derbyn adroddiadau gan y Pennaeth Dysgu a'r Uwch Reolwr Safonau Ysgolion ar berfformiad ysgolion unigol.

3.2 Derbyn adroddiadau gan yr Ymgynghorydd Her a Chefnogaeth (GwE) ar berfformiad ysgolion unigol.

3.3 Derbyn adroddiadau gan benaethiaid ar berfformiad ysgol ynghyd â'r gweithdrefnau a fabwysiadwyd sydd wedi arwain at well perfformiad.

3.4 Gwneud argymhellion neu godi unrhyw fater sy'n peri pryder i sylw'r Pennaeth Dysgu a'r Aelod Portffolio perthnasol lle bo angen.

3.5 Uwchgyfeirio materion ar gyfer sgriwtni lle bo angen.

3.6 Cyflwyno adroddiadau ar gynnydd i'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio pob blwyddyn galendr.

4.0 AELODAETH

4.1 Y Panel i gynnwys 8 aelod (y Pwyllgor Sgriwtni Partneriaeth ac Adfywio i enwebu 4 aelod a'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol i enwebu 4 aelod).

4.2 Os bydd unrhyw aelod enwebedig yn ymddiswyddo o'r Panel neu ddim yn gallu parhau i fod yn aelod ohono (am ba reswm bynnag), bydd y Rhiant-Bwyllgor Sgriwtini yn enwebu aelod arall yn ei le.

5.0 AMLDER A GWEINYDDU

5.1 Bydd y Panel yn ceisio ystyried perfformiad 10 ysgol ym mhob blwyddyn galendr.

5.2 Bydd gan holl gyfarfodydd y Panel raglen ysgrifenedig a rhoddir cyfle i aelodau gynnig eitemau ar gyfer y rhaglen cyn y cyfarfod.

5.3 Cymerir cofnodion yn yr holl gyfarfodydd o'r Panel a fydd yn cynnwys crynodeb o'r pwyntiau trafod allweddol ac unrhyw gamau y cytunwyd i'w cymryd.

5.4 Nid oes raid cael cworwm i'r Panel fedru bwrw ymlaen ond dylid rhoi sylw difrifol i ohirio'r cyfarfod os bydd llai na thri aelod yn bresennol.

6.0 ADOLYGU'R CYLCH GORCHWYL

6.1 Adolygir y Cylch Gorchwyl bob blwyddyn gan y Panel. Bydd raid cyflwyno unrhyw newidiadau arfaethedig i'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio i'w cymeradwyo'n ffurfiol.

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
PWYLLGOR:	Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio
DYDDIAD:	20 Ebrill, 2017
PWNC:	Adolygu Sgriwtini Partneriaethau
AELOD(AU) PORTFFOLIO:	Y Cynghorydd Alwyn Rowlands, Aelod Portffolio (Trawsnewid, Perfformiad, y Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau Dynol)
PENNAETH GWASANAETH:	Annwen Morgan, Prif Weithredwr Cynorthwyol
AWDUR YR ADRODDIAD: **Ffôn:** **E-bost:**	Geraint Wyn Roberts (Swyddog Sgriwtini) 01248 752039 GeraintRoberts@ynysmon.gov.uk

1.0 ARGYMHELLIAD

Gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini:

1.1 Ystyried ei effeithiolrwydd o ran monitro partneriaethau strategol allweddol yn ystod 2016/2017.

1.2 Awgrymu ffyrdd o gryfhau ei drefniadau ar gyfer monitro partneriaethau strategol allweddol yn ystod 2017/2018.

2.0 PWRPAS YR ADRODDIAD

2.1 Mae'r Aelodau yn ymwybodol bod y Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth â nifer sylweddol o sefydliadau eraill. Mae'r adroddiad hwn yn adolygu pa mor effeithiol fu dull y Pwyllgor o graffu ar bartneriaethau yn ystod 2016-2017 ac mae'n gofyn am awgrymiadau ar sut i gryfhau'r trefniadau monitro ar gyfer 2017/2018. Mae'n gyfle i fyfyrio a hunanarfarnu, i adeiladu ar y trefniadau cyfredol a datblygu dull adeiladol o weithredu yn y flwyddyn ddinesig newydd.

3.0 CEFNDIR

3.1 Mae gweithio mewn partneriaeth wedi dod yn rhan annatod o arferion gwaith yr awdurdod. Er y gall gweithio mewn partneriaeth fod â manteision sylweddol, gan

ymateb i heriau cymhleth a chynnig hyblygrwydd, arloesedd ac adnoddau ychwanegol i ddarparu gwasanaethau, nid yw'n hawdd a gall olygu risgiau sylweddol (yn aml yn gysylltiedig â chymhlethdod ac amwysedd) oni bai ei fod yn cael ei wneud yn effeithiol.

3.2 Crynhodd Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2014/15 ein trefniadau llywodraethu partneriaethau fel mater llywodraethu arwyddocaol:

".... Nid oes gan y Cyngor Fframwaith Partneriaeth ffurfiol i roi sicrwydd bod gan yr holl bartneriaethau drefniadau llywodraethu, rheoli a pherfformiad digonol i gwrdd â'u hamcanion ac i roi sicrwydd eu bod yn darparu gwerth am arian mewn perthynas â'r adnoddau ariannol a'r adnoddau eraill y mae'r Cyngor wedi eu buddsoddi ynddynt ... "

3.3 Casglodd Swyddfa Archwilio Cymru yn yr Adroddiad Asesu Corfforaethol ym mis Rhagfyr, 2015 fod y Cyngor yn chwarae rhan flaenllaw o ran cydweithio a'i fod yn cyfrannu'n dda at weithio mewn partneriaeth. Mae cydweithio a gweithio mewn partneriaeth ar bob lefel yn hanfodol i'r Cyngor allu cyflawni ei raglen waith uchelgeisiol.

3.4 Cafwyd adroddiad gan Uned Archwilio Mewnol y Cyngor ar y trefniadau llywodraethu ar gyfer ein gwaith partneriaeth ym mis Rhagfyr, 2015 a fu'n sbardun i symud ymlaen gyda rhai meysydd datblygu allweddol. Bu'n fodd i'r Cyngor ddatblygu ymhellach ei ymagwedd gorfforaethol at bartneriaethau (strategol a gweithredol, mewnol ac allanol). Mae'r adroddiad archwilio yn gwneud nifer o argymhellion a gellir eu crynhoi fel a ganlyn:

- Datblygu dogfen bolisi ar gyfer partneriaethau.
- Datblygu pecyn cymorth ar gyfer partneriaethau i ddarparu canllawiau ar gyfer sefydlu a datblygu partneriaethau.
- Llunio cofrestr ganolog, gorfforaethol o bartneriaethau.
- Datblygu trefniadau monitro ar gyfer partneriaethau er mwyn cadw golwg ar ganlyniadau a materion ariannol.
- Sefydlu rôl y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu mewn perthynas ag adolygu trefniadau llywodraethu partneriaethau, gan gynnwys monitro cofrestrau risg.
- Cynnal adolygiad blynyddol o'r partneriaethau allweddol.

3.5 Mae gan y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio rôl bwysig o ran sicrhau bod lefel briodol o ymgysylltu â sefydliadau eraill sy'n rhan o unrhyw bartneriaeth. Mae'r pwyllgor mewn sefyllfa dda i sicrhau bod gwaith a pherfformiad y partneriaethau yn ymateb i flaenoriaethau allweddol y Cyngor ac anghenion cymunedau lleol a'u bod yn gyson â nhw. Wrth gyflawni ei rôl, mae nifer o feysydd posib y dylai eu hystyried, gan gynnwys materion fel:

Sgriwtineiddio trefniadau llywodraethu

- Pwy sy'n gyfrifol am reoli cyllid a ddyrannwyd i'r bartneriaeth a beth yw'r broses ar gyfer ymrwymo gwariant?

- A oes gan y bartneriaeth weledigaeth, nodau ac amcanion sydd wedi eu diffinio'n glir ac a gawsant eu datblygu mewn ymgynghoriad â'r holl randdeiliaid perthnasol?
- Sut mae'r bartneriaeth yn gwerthuso ei gweithgareddau ac yn monitro ei pherfformiad yn erbyn ei hamcanion?

Craffu cyfraniad y Cyngor

- Beth yw rôl y Cyngor yn y bartneriaeth?
- Beth yw barn partneriaid am gyfraniad y Cyngor i'r bartneriaeth?
- A yw'r bartneriaeth yn cynorthwyo'r Cyngor i gyflawni ei flaenoriaethau allweddol?

Gwerthuso effeithiolrwydd cyffredinol y bartneriaeth

- A yw'r bartneriaeth yn cyflawni ei hamcanion?
- A yw'r bartneriaeth yn cwblhau'r prosiectau allweddol y mae'n gyfrifol amdanynt ar amser ac o fewn y gyllideb?
- Beth yw barn rhanddeiliaid am berfformiad y bartneriaeth?
- Sut mae gwaith y bartneriaeth yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol y Cyngor?
- Sut caiff perfformiad y bartneriaeth ei fesur?
- Beth yw barn rhanddeiliaid am berfformiad / effeithiolrwydd y bartneriaeth?

Sicrhau ymgysylltiad cyhoeddus a phartneriaethau a strategaethau sy'n canolbwyntio ar y dinesydd

- Pa mor dda mae'r bartneriaeth wedi ceisio ymgysylltu ac adlewyrchu barn cymunedau?
- Sut mae'r bartneriaeth wedi adrodd i'r cyhoedd ar strategaethau, amcanion, neu berfformiad cyffredinol?
- A oes unrhyw feysydd lle gall y pwyllgor neu Aelodau unigol gynorthwyo'r bartneriaeth drwy gynnal ymgynghoriad a / neu drwy wneud gwaith ymchwil?

4.0 CANFYDDIADAU

4.1 Ar 14 Mawrth, 2016 cymeradwyodd y Pwyllgor Gwaith ddogfen Polisi Partneriaethau Corfforaethol fel sylfaen ar gyfer gwaith partneriaeth a hefyd fel fframwaith i arwain trefniadau monitro partneriaethau.

4.2 Yn y polisi diffinnir partneriaeth fel:

"Trefniant cydweithio lle mae'r partneriaid yn gyrff annibynnol, yn cytuno i gydweithio i gyrraedd nod cyffredin o gydlyniant cymunedol ac i gyflawni hynny, yn creu strwythur neu broses sefydliadol a rhaglen y cytunwyd arni"

Mae'r Polisi a'r pecyn cymorth Partneriaethau bellach ar gael ar wefan y Cyngor yn:

www.ynysmon.gov.uk/cymuned/partneriaethau/

4.3 Bydd Aelodau hefyd yn ymwybodol fod y Cyngor Sir hefyd wedi creu Cofrestr Partneriaethau Gorfforaethol. Mae'n cynnwys y partneriaethau yr ystyrir eu bod yn allweddol i'n helpu i gyflawni blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol a'r Rhaglen Drawsnewid neu'r rheini y mae angen i ni ymgysylltu â nhw i ddylanwadu ar y safbwyntiau cenedlaethol neu ranbarthol ynghylch darparu gwasanaethau cyhoeddus.

4.4 Mae'r Gofrestr Partneriaethau'n cael ei chynnal gan y Swyddog Sgriwtini ac yn cael ei hadolygu ddwywaith y flwyddyn. Rhennir y gofrestr yn ddwy ran i gynnwys "Partneriaethau Gweithredol" (PG) a "Phartneriaethau Strategol Allweddol" (PSA). Mae PSA yn statudol neu'n un sy'n cynnwys cyfraniad ariannol sylweddol gan y Cyngor neu a allai arwain at risg ariannol / risg gwasanaeth sylweddol i'r Cyngor.

4.5 Darperir gwybodaeth gan y Penaethiaid Gwasanaeth er mwyn diweddaru'r gofrestr i adlewyrchu unrhyw bartneriaethau newydd cyn gynted ag y cytunir nhw, a hynny er mwyn sicrhau bod y Gofrestr mor gyfredol ag y bo modd. Mae'r Gofrestr yn cynnwys adnoddau sydd ar gael i'r bartneriaeth yn ogystal â gwybodaeth bwysig arall.

4.6 Oherwydd nifer y partneriaethau hyn, bu'n rhaid blaenoriaethu gweithgarwch sgriwtini'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio. Yn ystod 2016/2017 mae'r pwyllgor wedi bod yn canolbwyntio felly ar bartneriaethau strategol allweddol. Mae'r Pwyllgor wedi monitro partneriaethau strategol allweddol ac fe'u crynhoir yn **ATODIAD 1** i'r adroddiad hwn.

5 CASGLIADAU

5.1 Mae'n briodol bod y Pwyllgor yn canolbwyntio ar bartneriaethau strategol allweddol ond hefyd yn monitro unrhyw bartneriaethau gwasanaeth gweithredol allweddol, fel y cynigiwyd gan naill ai yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth neu'r Penaethiaid Gwasanaeth.

5.2 Wrth i waith y Pwyllgor aeddfedu o ran monitro partneriaethau, dylid rhoi mwy o ffocws ar fynd i'r afael â'r trefniadau llywodraethu ac effeithiolrwydd partneriaethau allweddol.

5.3 Dylid cadw mewn cof bod gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol rôl bwysig i fonitro partneriaethau. Un enghraifft o hynny yw'r gwaith parhaus yn monitro Cynllun Gwella'r Gwasanaethau Plant. Bydd y gwaith hwn yn cynnwys monitro camau i gryfhau llais Ynys Môn ar y Bwrdd Rhanbarthol Diogelu Plant a sicrhau bod y Cyngor a sefydliadau eraill yn gweithio'n rhagweithiol gyda'i gilydd i sicrhau gwelliannau yn ansawdd ac amseroldeb materion amddiffyn plant. Mae'r pwyllgor hefyd yn sicrhau y clywir llais pobl ifanc, yn arbennig fel rhan o osod y gyllideb a'r broses ymgynghori.

5.4 Mae gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant rôl i sicrhau bod trefniadau digonol i reoli risgiau sy'n gysylltiedig â gweithio mewn partneriaeth**.** Felly, mae'n bwysig bod y gwaith monitro partneriaethau yn cydblethu gyda gwaith a wneir gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant i fonitro risgiau sy'n gysylltiedig â gweithio mewn partneriaeth.

Atodiad
1 - Rhestr o Bartneriaethau Strategol Allweddol a gawsant eu monitro yn ystod 2016/17

Papurau cefndir
• Polisi Partneriaethau Corfforaethol • Pecyn Cymorth Partneriaethau

ATODIAD 1

(Rhestr o Bartneriaethau Strategol Allweddol a gawsant eu monitro yn ystod 2016/2017)

1.Adroddiad Blynyddol y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol (26/9/16)

Mae'n ofynnol i'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol adrodd yn ffurfiol i'r Pwyllgor hwn bob blwyddyn i gyflwyno trosolwg o'i gweithgareddau. Mae hyn yn sicrhau bod y Bartneriaeth yn cyflawni ei chyfrifoldebau yn unol ag Adrannau 19 a 20 Deddf yr Heddlu a Chyfiawnder Troseddol 2006. Mae gan gynghorau ddyletswydd statudol yn unol â Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 a diwygiadau a wnaed iddi yn sgil Deddfau'r Heddlu a Chyfiawnder Troseddol 2002 a 2006, i weithio mewn partneriaeth â'r Heddlu, y Gwasanaeth Iechyd, y Gwasanaeth Prawf a'r Gwasanaeth Tân ac Achub i fynd i'r afael â'r rhaglen diogelwch cymunedol leol. Codwyd amryfal faterion gan aelodau a rhoddwyd cefnogaeth i fwrw ymlaen i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau a nodwyd

2. GwE – Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion ar gyfer Gogledd Cymru (26/9/16)

Adroddiad a gyflwynwyd gan y Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion (GwE) mewn perthynas ag ysgolion Ynys Môn sydd yn y categori oren neu goch yn ystod 2014/16. Rhoddodd yr Aelodau sylw i'r agweddau canlynol:

- Sut mae'r Awdurdod yn monitro ac yn herio gwaith GwE ?
- Sut mae'r Awdurdod yn gwybod a yw'n cael gwerth am arian gan GwE?
- Sut mae'r Awdurdod yn sicrhau bod gwaith GwE yn gydnaws â chynlluniau ac amcanion lleol, a bod agweddau allweddol sydd angen sylw yn cael eu targedu'n effeithiol?
- Pa wahaniaeth mae cefnogaeth GwE wedi ei wneud i ganlyniadau, safonau cyflawniad ac ansawdd yr arweinyddiaeth yn yr ysgolion yn y categori Coch neu Ambr ym Môn?
- Ym mha ysgolion mae'r gwahaniaethau mwyaf amlwg i'w gweld?
- Pa agweddau y bydd angen eu blaenoriaethu yn y dyfodol er mwyn sicrhau gwelliannau pellach.

Cafodd yr aelodau gyfle i holi'r uwch Ymgynghorydd Her (GwE) yn fanwl am y camau gwella cyfredol. 'Roedd y pwyllgor yn cefnogi'r camau gweithredu a nodwyd yn yr adroddiad i wella ysgolion yn y categori oren / coch. Byddai'r Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion hefyd yn parhau â'i waith o fonitro perfformiad ysgolion unigol.

3.Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr – cydweithio rhwng y Bwrdd Iechyd a'r Cyngor (22/11/17)

Cafwyd gwybodaeth gan gynrychiolwyr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) a swyddogion y Cyngor a oedd yn amlygu'r gwaith partneriaeth rhwng y Cyngor, BIPBC a'r trydydd sector gan gynnwys: Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar y Cyd (Gwynedd a Môn); Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc (Ynys Môn); Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol; Model Môn; Bwrdd Cyflawni Integredig (Ynys Môn); Bwrdd Prosiect Un Pwynt Mynediad; Bwrdd Rheoli'r Gwasanaethau

Arbenigol Plant (GAP); Bwrdd Cymorth i Deuluoedd Gogledd Cymru; Bwrdd Rheoli Lleol Gwybodaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd, 'Night Owls' a'r tîm Gweithio Penwythnos Cymunedol.

Cefnogodd ac anogodd y Pwyllgor fentrau cydweithio ar gyfer y dyfodol. Rhoddwyd pwyslais ar bwysigrwydd gwaith integredig a gofynnwyd cwestiynau am y trefniadau ymarferol a chanlyniadau gwahanol gynlluniau.

4. Awdurdodau Gogledd Cymru a'r Bwrdd Iechyd – Asesiad o Anghenion y Boblogaeth - (24/1/17)

Mae'r Asesiad o Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru yn nodi anghenion gofal a chymorth y boblogaeth yn awr ac i'r dyfodol, ynghyd ag anghenion cymorth y gofalwyr. Mae Rhanbarth Gogledd Cymru yn cynnwys chwe Awdurdod Lleol Gogledd Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. 'Roedd raid darparu un adroddiad ar gyfer Rhanbarth Gogledd Cymru i'w gymeradwyo gan y chwe Chyngor Sir a Bwrdd y Gwasanaeth Iechyd Lleol erbyn 1 Ebrill, 2017.

Mae'r pwyllgor, ymhlith materion eraill, wedi holi am y broses a ddilynwyd i gwblhau'r asesiad, ynghyd â chysylltiadau â data a gedwir gan gynghorau yng ngogledd Cymru. Cymeradwyodd y pwyllgor yr adroddiad ac argymhellodd y dylid ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor Sir i'w gadarnhau.

5. GwE – Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion ar gyfer Gogledd Cymru (16/2/17)

Cyflwynodd Uwch Ymgynghorydd Her a Chefnogaeth GwE adroddiad cynnydd ynghylch safonau ysgolion ar gyfer cyfnodau allweddol ym mlwyddyn academaidd 2015/16. 'Roedd yr adroddiad yn cynnwys trosolwg cynhwysfawr o berfformiad ysgolion yr Ynys.

Cododd y pwyllgor sawl mater gwahanol. Mynegwyd pryder bod perfformiad yr ysgolion uwchradd ychydig yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol yn y rhan fwyaf o'r dangosyddion allweddol gan fod y cynnydd cenedlaethol yn llawer uwch ac 'roedd angen gwella perfformiad yng nghyfnod allweddol 4. Cytunwyd i dderbyn yr adroddiad ac i barhau â gwaith y Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion.

6.Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru - Cynllun Sgiliau Rhanbarthol (16/2/17)

Diweddaru'r aelodau ar y cynnydd a wnaed hyd yma o ran cyflawni Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Sefydlwyd y Bwrdd i gydlynu gweithgarwch datblygu economaidd strategol yn well ar sail ranbarthol er mwyn ymateb i'r pwysau ar gyllid cyhoeddus. Mae'r gwaith o gydlynu a chyflawni'r rhaglen cyflogaeth a sgiliau ar sail ranbarthol yn un o'r meysydd blaenoriaeth allweddol ar gyfer y Bwrdd. Mae sicrhau gwell aliniad rhwng y cyflenwad o sgiliau a'r galw am sgiliau yn hanfodol er mwyn cynnal a thyfu'r economi ranbarthol. Cefnogodd y Pwyllgor y Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth Rhanbarthol a'r angen i gyflenwi'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer twf economaidd yn y dyfodol yn Ynys Môn a Gogledd Cymru. Pwysleisiodd y Pwyllgor bwysigrwydd codi ymwybyddiaeth pobl ifanc o bynciau busnes cyffredinol er mwyn gwneud y defnydd gorau o gyfleoedd cyflogaeth sydd ar gael.

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

SGRIWTINI

PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO 2017/2018

Cadeirydd: Y Cynghorydd
Is-Gadeirydd: Y Cynghorydd

Y tabl isod yw Rhaglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio o Mai 2017 at Mai 2018. Adroddir ar y Rhaglen Waith i bob cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini i bwrpas adolygu ei chynnwys, ystyried eitemau newydd neu i ohirio/tynnu eitemau yn ôl.

Cyswllt: Geraint Wyn Roberts (Swyddog Sgriwtini)
Ffôn: 01248 752039
E-bost: gwrce@ynysmon.gov.uk

PANELI CANLYNIAD SGRIWTINI

(1) Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion (yn parhau)

DRAFT

Dyddiad Cyfarfod	Eitem	Pwrpas	Lleoliad / Amser Cychwyn
31 Mai 2017	Ethol Cadeirydd	Ethol Cadeirydd	Ystafell Pwyllgor 1 / 3.30yh
	Ethol Is Gadeirydd	Ethol Is Gadeirydd	
27 Mehefin 2017	Cyngor Iechyd Cymuned (i'w gadarnhau)	Gwybodaeth	Ystafell Pwyllgor 1 / 2yh
	Adroddiad Blynyddol Cymunedau yn Gyntaf (i'w gadarnhau)	Monitro perfformiad	
	Rhaglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addeid (I'w gadarnhau)	Gwybodaeth / monitro perfformiad	
	GwE- Adroddiad Blynyddol 2016-2017(i'w gadarnhau)	Monitro perfformiad	
	Monitro Partneriaethau yn 2017/2018 (i'w gadarnhau)	Monitro partneriaethau	
5 Medi 2017	Adroddiad Blynyddol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol	Monitro perfformiad	Ystafell Pwyllgor 1 / 2yh
	Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (datblygu Cynllun Llesiant Môn a Gwynedd)	monitro perfformiad/datblygu polisi	
	Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr (i'w gadarnhau)	Monitro perfformiad	
	Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion (Diweddariad)	Monitro perfformiad	
14Tachwedd 2017	Cyd Weithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	Monitro perfformiad	Ystafell Pwyllgor 1 / 2yh
	Trawsnewid Gwasanaethau Diwylliant	Sgriwtini cyn penderfyniad	

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English

Dyddiad Cyfarfod	Eitem	Pwrpas	Lleoliad / Amser Cychwyn
6 Chwefror 2018	Adroddiad Blynyddol – Perfformiad Ysgolion Môn2016/2017	Monitro perfformiad	Ystafell Pwyllgor 1 / 2yh
	GwE- Adroddiad Blynyddol 2016/2017	Monitro perfformiad	
	Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion (Diweddariad)	Monitro perfformiad	
10 Ebrill 2018	i'w gadarnhau	i'w gadarnhau	Ystafell Pwyllgor 1 / 2yh

Eitemau i'w ychwanegu: Arbrawf Gorfodaeth Amgylcheddol (baw ci)- Diweddariad

DRAFT

This page is intentionally left blank